


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cyhoeddwyd: Ebrill 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 210A2013

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif drwy hybu gwelliannau fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Lisa Williams a Ron Price o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Awdurdod yn rheoli ei raglen gwella yn dda, ond nid yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill, tebyg 8

Mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliant yn ei swyddogaethau craidd 8

Mae gwerthusiadau ac adroddiadau'r Awdurdod o'i berfformiad yn gytbwys, ond nid yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill, tebyg 12

Mae'r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13 15

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 18

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 19

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 21

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 23

Atodiad 5
Cynigion ar gyfer gwella 2012-13 28

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r ffordd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Yn gyffredinol, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod yr Awdurdod yn rheoli ei raglen gwella yn dda, ond nad yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill tebyg.

3 Cafwyd gennym fod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliant yn ei swyddogaethau craidd. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a bu gostyngiad yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau;
- ymatebwyd i lai o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ni chafwyd unrhyw farwolaethau a gostyngodd nifer yr anafiadau;
- ymatebwyd i lai o danau bwriadol yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ni chafwyd unrhyw farwolaethau a gostyngodd nifer yr anafiadau;
- ymatebwyd i lai o wrthdrawiadau traffig ar y ffordd, gostyngodd nifer yr anafiadau a chafodd llai o yrwyr ifanc ddamweiniau, er bod nifer y damweiniau angheuol a difrifol a'r marwolaethau wedi cynyddu.

4 Canfuwyd hefyd fod gwerthusiadau ac adroddiadau'r Awdurdod ar ei berfformiad yn gytbwys, ond nad yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill tebyg. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd bod yr Awdurdod:

- wedi llunio barn fwy cytbwys ar ei berfformiad yn 2011-12 nag a wnaeth mewn blynyddoedd blaenorol;
- wedi cymryd camau cadarnhaol i roi cyhoeddusrwydd i'w Asesiad o Berfformiad;
- wedi defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth berthnasol i lunio ei gasgliadau ond nad yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill tebyg.

5 I gloi, daethom i'r casgliad fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae trefniadau cynllunio busnes wedi'u hymgorffori'n dda, maent yn darparu darlun clir o'r camau arfaethedig ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar y cyfan;
- bod yr Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol;
- gwneir cynnydd da i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol;
- er bod rhai gwendidau, mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd;
- mae'r trefniadau llywodraethu wedi cael eu hadolygu'n effeithiol fel rhan o broses Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod.

# Argymhellion

6 Ni wneir unrhyw argymhellion ffurfiol yn yr adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda help gan arolygiaethau Cymru, gan gynnwys y Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub[1], rydym wedi llunio darlun o'r hyn y maes pob awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Awdurdod wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad yr Awdurdod ei hun.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw fordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

1 Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru drefniadau ar gyfer asesu perfformiad gweithredol awdurdodau tân ac achub ym mis Tachwedd 2006. Fel rhan o'r broses asesu, cynhelir hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog ynghyd ag adolygiad gan dîm asesu cymheiriaid sy'n cynnwys swyddogion o awdurdodau tân ac achub eraill.

# Mae'r Awdurdod yn rheoli ei raglen gwella yn dda, ond nid yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill, tebyg

## Mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliant yn ei swyddogaethau craidd

11 Isod rydym wedi rhoi crynodeb o berfformiad yr Awdurdod mewn pedwar maes allweddol (tanau mewn anheddau, tanau ar safleoedd annomestig, cynnau tanau yn fwriadol a damweiniau traffig ar y ffordd). Mae'r rhain yn adlewyrchu Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru a swyddogaethau neu ddyletswyddau craidd awdurdodau tân ac achub yn y DU, sef:

- hyrwyddo diogelwch tân drwy ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau a marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau;
- rhoi cyngor, ar gais, ar sut i atal tanau a chyfyngu ar eu gallu i ymledu mewn adeiladau a mathau eraill o eiddo, ac ar ffyrdd o ddianc os bydd tân;
- darparu ar gyfer diogelu bywyd ac eiddo os bydd tân;
- darparu ar gyfer achub a diogelu pobl rhag niwed difrifol os bydd damweiniau traffig ar y ffordd;
- ymateb i argyfyngau eraill neu bosibiliadau o'r fath fel y bo angen i ddiogelu pobl, eiddo neu'r amgylchedd.

### Ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a bu gostyngiad yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau

12 Gwelwyd gostyngiad o un y cant yng nghyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 535 o achosion yn 2010-11 i 530 yn 2010-12). Mae'r gostyngiad hwn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o bedwar y cant ar gyfer yr un cyfnod:

- cafwyd cynnydd o un y cant yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 469 yn 2010-11 i 474 yn 2011-12), o gymharu â'r gostyngiad cyfartalog o ddau y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod;
- dechreuwyd 56 o danau bwriadol mewn anheddau, sef gostyngiad o 15 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol sy'n is na'r gostyngiad o 19 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

13 Bu farw llai o bobl mewn tanau mewn anheddau yn ystod 2011-12 (o 10 yn 2010-11 i chwech yn 2011-12). Cafwyd gostyngiad o 39 y cant yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau mewn anheddau (o 62 o achosion yn 2010-11 i 38 yn 2011-12), sy'n sylweddol uwch na'r gostyngiad o 21 y cant a welwyd ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

14 Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod larymau mwg a roddir am ddim fel rhan o'i wiriadau diogelwch tân yn y cartref yn cyrraedd y rheini sy'n wynebu risg, yn arbennig, yn y tanau yr ymatebwyd iddynt:

- Ymatebwyd i lai o danau mewn eiddo heb larwm mwg (o 17 y cant yn 2010-11 i 15 y cant yn 2011-12), sy'n sylweddol well na chyfartaledd Cymru, sef 34 y cant ar gyfer 2010-11.
- Ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau lle roedd cyfarpar canfod tân wedi'i weithredu (o 62 y cant yn 2010-11 i 61 y cant yn 2011-12), ond mae hyn yn well na'r cyfartaledd ledled Cymru, sef 51 y cant ar gyfer 2011-12.
- Roedd gan gyfran uwch gyfarpar canfod na lwyddodd i weithredu, i fyny o 22 y cant y llynedd i 24 y cant yn 2011-12. Mae'r gyfran hon yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 16 y cant ar gyfer 2011-12.

## Ymatebwyd i lai o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ni chafwyd unrhyw farwolaethau a gostyngodd nifer yr anafiadau

15 Cafwyd gostyngiad o chwech y cant yn nifer y tanau yr ymatebwyd iddynt ar safleoedd annomestig yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 229 o achosion yn 2010-11 i 215 yn 2011-12) sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 17 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

16 Ni fu farw unrhyw bobl mewn tanau ar safleoedd annomestig yn ystod 2011-12 (fel yn 2010-11) yn unol â'r sefyllfa ledled Cymru. Gostyngodd nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau o'r fath o 15 yn 2010-11 i dri yn 2011-12, sef gostyngiad o 80 y cant, sy'n well na'r gostyngiad cyfartalog ar gyfer Cymru ar gyfer yr un cyfnod, sef 42 y cant. Mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob achos gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd.

17 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod orfodi darpariaethau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i sicrhau bod mesurau diogelwch tân digonol ar waith mewn eiddo masnachol a busnesau. Gall hefyd ddarparu cyngor a chymryd camau gorfodi os ystyrir bod angen gwneud hynny, er enghraifft, os bydd risg ddifrifol yn bodoli ac nad yw'n cael ei rheoli. Yn ystod Hydref 2012, adolygodd y Tîm Asesu Cymheiriaid (PAT) Ddiogelwch Tân mewn Busnesau a chanfu fod yr Awdurdod:

- wedi rhoi systemau ar waith ar gyfer casglu a dadansoddi data er mwyn blaenoriaethu risgiau a thargedu gweithgareddau ac adnoddau;
- yn defnyddio System Gwybodaeth Reoli RMS i storio a rheoli gwybodaeth am risgiau, ac yn defnyddio'r MIS yn llwyddiannus fel storfa unigol ar gyfer gwybodaeth am risgiau;
- yn cydnabod cyfyngiadau yn y set data o ran anheddau nas cofnodwyd a'i fod wedi cymryd camau i ymdrin â hyn drwy gyfrwng prosiect glanhau data pum mlynedd;
- yn cydnabod buddiannau strwythur sy'n defnyddio adrannau Diogelwch Tân mewn Busnesau yn seiliedig ar Orchmynion Sirol wedi'u hategu gan adran Diogelwch Tân mewn Busnesau ganolog, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o adnoddau drwy sicrhau bod hyblygrwydd i reoli blaenoriaethau yn lleol;
- yn dangos ei fod yn ymgysylltu'n amlwg â rhanddeiliaid mewnol wrth gynllunio gweithgareddau;
- yn darparu tystiolaeth gadarn o lif gwybodaeth effeithiol ddwy ffordd drwy gyfnewid gwybodaeth weithredol gritigol am risgiau â rhanddeiliaid;
- yn cydnabod nad oedd mesurau llwyddiant yn cael eu cyfleu i ddinasyddion y tu hwnt i'r wybodaeth ystadegol safonol a gaiff ei darparu drwy wefan yr Awdurdod.

## Ymatebwyd i lai o danau bwriadol yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ni chafwyd unrhyw farwolaethau a gostyngodd nifer yr anafiadau

18 Cafwyd gostyngiad o bump y cant yn nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2011-12, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 1,438 o achosion yn 2010-11 i 1,370 yn 2011-12), sy'n is na'r gostyngiad cyfartalog ledled Cymru, sef 25 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

19 Dechreuwyd tua 43 y cant o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt yn fwriadol yn ystod 2011-12, sydd ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer 2010-11 (44 y cant) ac yn llawer is na chyfartaledd Cymru, sef 65 y cant yn ystod 2011-12.

20 Cafwyd gostyngiad o 27 y cant yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau bwriadol o 11 yn 2010-11 i 8 yn 2011-2012 sy'n sylweddol well na'r gostyngiad cyfartalog o dri y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Ni fu farw unrhyw un mewn tanau bwriadol yn ystod 2011-12 (fel yn y flwyddyn flaenorol).

## Ymatebwyd i lai o wrthdrawiadau traffig ar y ffordd, gostyngodd nifer yr anafiadau a chafodd llai o yrwyr ifanc ddamweiniau, ond cynyddodd nifer y damweiniau angheuol a difrifol a'r marwolaethau

21 Nid oes gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd ond mae'n cydweithio â'r heddlu ac eraill i wella diogelwch ar y ffyrdd drwy Grŵp Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru. Cynhaliodd yr Awdurdod nifer o fentrau a gynlluniwyd i leihau nifer y damweiniau ar y ffyrdd gan gynnwys:

- cynnal ei rôl fel partner â grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru;
- cynllun gyrru Pass Plus Cymru, sef cynllun wedi'i anelu at yrwyr ifanc 18 i 25 oed;
- y Cynllun Addysg Moduro, sef menter bartneriaeth sy'n cynnwys yr heddlu ac awdurdodau lleol;
- arddangosiadau fel rhan o sioe deithiol effeithiau a chymryd rhan mewn diwrnodau diogelwch ar y ffyrdd amlasiantaethol.

22 Bu gwelliannau o ran diogelwch ffyrdd yng Ngogledd Cymru ac mae'r patrwm perfformio yn debyg i gyfartaledd Cymru. Bu cynnydd yn nifer y marwolaethau ac anafiadau ymhlith beicwyr modur o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac erys yn destun pryder:

- bu gostyngiad o 20 y cant yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11, o 767 i 617; mae hyn yn sylweddol well na'r gostyngiad o saith y cant ledled Cymru yn ystod yr un cyfnod;
- mae damweiniau angheuol a difrifol wedi cynyddu 18 y cant rhwng 2010 pan gafwyd 276 o ddamweiniau, a 2011 pan gafwyd 326 o ddamweiniau; mae'r cynnydd hwn yn fwy na'r cynnydd a welwyd ledled Cymru, sef 14 y cant;
- cynyddodd nifer y bobl a fu farw mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd o 20 yn 2010 i 33 yn 2011;
- gostyngodd nifer yr anafiadau saith y cant rhwng 2010 pan gafwyd 2,470 o anafiadau a 2011 pan gafwyd 2,297, sydd ychydig yn well na'r gostyngiad o chwech y cant ledled Cymru;
- bu 658 o yrwyr 25 oed neu'n iau mewn damweiniau yn 2010 o gymharu â 586 yn 2011 - gostyngiad o 11 y cant sy'n well na'r gostyngiad cyfartalog ar gyfer Cymru, sef pedwar y cant, ar gyfer yr un cyfnod;
- cafodd 196 o feicwyr modur eu lladd neu eu hanafu yn 2010 o gymharu â 172 yn 2011 - sef gostyngiad o 12 y cant, sy'n wahanol iawn i gyfartaledd Cymru lle gwelwyd cynnydd o tua un y cant.

# Mae gwerthusiadau ac adroddiadau'r Awdurdod o'i berfformiad yn gytbwys, ond nid yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill, tebyg

## Mae'r Awdurdod wedi llunio barn fwy cytbwys o'i berfformiad yn 2011-12 nag a wnaeth mewn blynyddoedd blaenorol

23 Ym mis Ionawr 2013, adroddwyd gennym fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliannau o dan y Mesur a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn ein Hadroddiad ar yr Asesiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012, daethom i'r casgliad fod yr Awdurdod wedi rhoi trefniadau da ar waith i gyflawni gwelliant a'i fod yn perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn ddigon cytbwys nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau. Nodwyd yn benodol gennym fod Cynllun Gwella'r Awdurdod a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2011 yn rhoi asesiad cyffredinol o gynnydd yr Awdurdod yn erbyn ei Amcanion Gwella, ac yn dangos perfformiad ar gyfer blynyddoedd blaenorol a gwneir rhai cymariaethau â sefydliadau eraill drwy gydol y ddogfen er mwyn rhoi darlun o'r cynnydd a wnaed. Fodd bynnag:

- nid oedd y cynllun yn cynnwys arfarniad beirniadol o farn yr Awdurdod ar ei berfformiad yn gyffredinol, a'r hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol yn sgil hynny;
- mae rhai o'r asesiadau yn fyr ac yn tueddu i ganolbwyntio ar ffactorau cadarnhaol, ac mae hyn yn golygu y gallai dinasyddion ei chael yn anodd llunio casgliad cywir ynghylch cynnydd yr Awdurdod yn 2010-11 o ddarllen y cynllun.

24 Dangosodd 'Asesiad o Berfformiad yr Awdurdod' yr Awdurdod a gyhoeddwyd yn 2012 lefel well o hunanymwybyddiaeth na'r flwyddyn flaenorol a rhoddodd adroddiad mwy cytbwys ar ei berfformiad, gan roi cyfrif am ei fethiannau i berfformio, yn ogystal â hyrwyddo ei lwyddiannau. Mae'r adroddiad yn disgrifio perfformiad yn erbyn pob un o'i 10 Amcan Gwella ac yn cynnwys sylwebaeth ar yr heriau parhaus a'r hyn y mae'r Awdurdod yn bwriadu ei wneud i ymdrin â hwy. Mae datganiadau clir a diamwys ar gael ar gyfer pob Amcan Gwella sy'n rhoi barn yr Awdurdod ar b'un a yw wedi'i gyflawni'n llwyr ai peidio.

25 Mae'n bleser nodi bod yr Awdurdod wedi cydnabod diffygion blaenorol, ac er bod y naratif yn hir mewn mannau, mae adroddiad 'Asesiad o Berfformiad yr Awdurdod' yr Awdurdod yn hawdd i'w ddarllen a'i ddeall, gydag esboniadau da o iaith 'dechnegol' sy'n gysylltiedig â'r sector tân ac achub (yn cynnwys geirfa mewn adran ar wahân). Byddai gwaith mireinio pellach o ran cyfeirio a chroesgyfeirio yn egluro cysylltiadau rhwng dangosyddion perfformiad 'mesurau llwyddiant' a'r naratif, ac yn helpu'r darllenwr 'drwy'r' ddogfen.

26 Mae adolygiad o berfformiad yn swyddogaeth reolaidd ac arferol drwy'r sefydliad cyfan, yn cynnwys rheolwyr ac aelodau yn y gwaith o asesu a rheoli perfformiad. Caiff canlyniadau perfformiad eu dadansoddi, gyda'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd gwan a heriau yn y dyfodol. Mae'r broses o baratoi'r Asesiad o Berfformiad hefyd yn rhoi ffocws i'r

Awdurdod herio ei hun, dysgu a myfyrio ar ei berfformiad, ac adrodd ar ei gynnydd i'r cyhoedd.

## Cymerodd yr Awdurdod gamau cadarnhaol i roi cyhoeddusrwydd i'w Asesiad o Berfformiad

27 Mae 'Asesiad o Berfformiad yr Awdurdod' yr Awdurdod ar gael ar ffurf electronig a sicrhawyd ei fod ar gael i'r cyhoedd graffu arno drwy hyrwyddo'r ffaith ei fod ar gael drwy ohebiaeth e-bost uniongyrchol at randdeiliaid a sicrhau ei fod ar gael yn hawdd ar wefan yr Awdurdod (ond nid ar yr hafan). Mae copïau ar gael ar gais o Bencadlys y Gwasanaeth ond gall dibynnu ar y ffurf electronig hon fod yn broblem i rai pobl. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol, fel Twitter, i hyrwyddo'r Asesiad o Berfformiad a chael adborth gan y cyhoedd.

28 Mae'r Awdurdod wedi llunio Crynodeb o Berfformiad ar wahân sy'n glir, yn hawdd ei ddeall, yn myfyrio ar gynnydd yn erbyn y 10 Amcan Gwella ac yn adlewyrchu'n gywir yr adroddiad llawn ar yr Asesiad o Berfformiad. Mae'n dangos y camau gweithredu a gwblhawyd ac effaith y camau hynny o ran canlyniadau i'r cyhoedd, mewn ffordd gryno sydd, yn ein barn ni, yn arfer da. Mae'r Awdurdod wedi dosbarthu hyn yn eang drwy roi copïau mewn llyfrgelloedd cyhoedd a mannau gwybodaeth y cyngor, yn ogystal â dosbarthu mewn digwyddiadau (sioeau amaethyddol, eisteddfodau ac ati) ac ar wefan yr Awdurdod.

## Mae'r Awdurdod wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth berthnasol i lunio ei gasgliadau ond nid yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill tebyg

29 Canfu ein harchwiliad o Ddangosyddion Perfformiad ar gyfer 2011-12 fod gan yr Awdurdod systemau dibynadwy ar waith i sicrhau bod y dangosyddion perfformiad a ddefnyddir ganddo yn ei adroddiadau yn gywir. Mae'r Awdurdod wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod ein Harchwiliad o Ddangosyddion Perfformiad 2010-11 ac mae nawr yn cynnwys yr holl ddata perthnasol a ddelir yn y System Cofnodi Digwyddiadau ynglŷn â digwyddiadau 'dros y ffin' yn ei ystadegau terfynol.

30 Darparodd yr Awdurdod ystod eang o dystiolaeth wrth lunio ei gasgliadau a gwneud asesiadau dilys o berfformiad ond nid yw'n darparu cymhariaeth yn erbyn ei dargedau ar gyfer y flwyddyn. Nid oes cymhariaeth ag awdurdodau gwella a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru (gan gynnwys awdurdodau tân ac achub Cymru) nac ychwaith ag awdurdodau tân ac achub ledled y DU (er bod Cynllun Lleihau Risg Gwella ar Cyd 2010-11 i 2012-13 sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn cynnwys rhywfaint o ddata cymharol). Ni ddefnyddir gwybodaeth o arolygon boddhad nac arolygon o ddinasyddion i gadarnhau barn y gymuned ehangach yn yr asesiad. Awgryma Llywodraeth Cymru hefyd, yn ei Fframwaith Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, y dylid cynnwys y mesurau canlynol (lleol yn bennaf), na chyflwynir adroddiad arnynt ar hyn o bryd, yn Asesiad yr Awdurdod o Berfformiad:

- perfformiad o ran gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd;
- perfformiad o ran lleihau nifer yr anafiadau gweithredol ymhlith diffoddwyr tân;
- perfformiad o ran cynnal cymhwysedd gweithredol;
- perfformiad yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Awdurdod Tân ac Achub Cymru (er bod rhywfaint o ddata ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i gynnwys);
- perfformiad yn erbyn Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod.

# Mae'r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13

## Mae trefniadau cynllunio busnes wedi'u hymgorffori'n dda, maent yn darparu darlun clir o'r camau arfaethedig ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar y cyfan

31 Mae arweinyddiaeth yr Awdurdod yn parhau i hyrwyddo newid. Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol yn 2012, mae aelodaeth yr Awdurdod wedi newid yn sylweddol: dychwelodd saith aelod ac roedd 21 aelod yn newydd ac yn gwasanaethu ar yr Awdurdod am y tro cyntaf. O ganlyniad, cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi amrywiol er mwyn briffio aelodau'n llawn yn eu rolau newydd.

32 Cyflawnodd yr Awdurdod ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur a gweithredodd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Cyfunol ar gyfer Gwella a Lleihau Risgiau a ddisgrifiodd wyth Amcan Gwella ar gyfer 2012-13. Ym mis Gorffennaf 2012, adolygodd y Panel Gweithredol yr Amcanion Gwella hyn a'u gostwng o wyth i ddau er mwyn cyfleu neges glir o ran blaenoriaethau'r Awdurdod. Ni chollwyd y gweithgareddau a gynlluniwyd i gyflawni'r chwe amcan gwella y cytunwyd arnynt yn flaenorol ac fe'u cynhwysir o fewn cynlluniau gweithredu adrannol (gan eu bod yn cyfrannu at ddyletswydd gyffredinol yr Awdurdod i wella).

33 Mae'r Awdurdod yn cymryd camau i sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ymwybodol o'r amcanion gwella a ailbennwyd a'i fod yn cymryd camau i ddiweddaru'r fersiynau electronig o'r cynlluniau ar wefan yr Awdurdod.

34 Nid yw'r trefniadau arferol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn nodi'n llawn nac yn glir gynnydd i gyflawni amcanion gwella. Ar y cyfan, dangosir cynnydd drwy'r defnydd o ddangosyddion strategol a chraidd cenedlaethol Llywodraeth Cymru ynghyd â nifer fach o ddangosyddion lleol. Yn ystod 2012-13, mae'r Awdurdod yn bwriadu diwygio, o chwarter dau, ei adroddiadau i aelodau fel eu bod yn cynnwys cynnydd yn erbyn amcanion gwella ac mae wrthi'n ystyried y ffordd orau o wneud hyn. Mae hyn yn arbennig o wir am Amcan Gwella 2, y bydd angen ei gysylltu â'r trefniadau presennol ar gyfer adroddiadau ariannol. Rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol ar yr elfen hon o'r broses o gyflwyno adroddiadau fel rhan o'n gwaith archwilio yn ystod 2013-14.

35 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod tân ac achub yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau tân ac achub yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod tân ac achub wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

36 Trwy sefydlu'r Fforwm Gymraeg, mae'r Awdurdod wedi cysoni'r gwaith oedd yn cael ei wneud gan y Gweithgor Iaith a Grŵp Strategol y Gymraeg, er mwyn hybu a chodi proffil y Gymraeg ar draws Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd. Mae gan y grŵp

rôl strategol ac ymarferol, ac yn gyfrifol am sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau i weithio tuag at gynnydd trwy ei Gynllun Iaith Gymraeg. Mae'n bwysig fod y Fforwm yn sicrhau ei fod yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gan ei ragflaenwyr yn ystod 2013. Mae'r Awdurdod wedi bwrw ymlaen i fuddsoddi yn ei staff trwy ddarparu hyfforddiant ac offer cyfieithu ar y pryd, ac mae wedi bod yn ofynnol i bob aelod o staff newydd sy'n ymuno â'r Awdurdod i gyrraedd hyfedredd lefel 2 yn y Gymraeg ers Ionawr 2010. Mae'r Awdurdod wedi parhau i hybu archwiliadau diogelwch tân trwy gyfrwng y Gymraeg, ac o ganlyniad cafwyd cynnydd sylweddol yn niferoedd y cyhoedd ofynnodd am archwiliad tân yn Gymraeg yn ystod 2011-12.

## Mae'r Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol

37 Mae gan yr Awdurdod ddull cadarn o reoli ariannol ond, o ystyried maint y newid sydd ei angen, mae angen trefniadau arweinyddiaeth clir.

38 Dengys y rhagolwg ariannol diweddaraf ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at 2013-14 fod angen i'r Awdurdod gyflawni arbedion effeithlonrwydd rhagamcanol cronnol o £2.4 miliwn. Diweddarodd yr Awdurdod y rhagolwg fel rhan o broses pennu cyllideb 2013-14 a byddwn yn ei adolygu fel rhan o'n gwaith yn ystod 2013-14.

39 Er bod dull yr Awdurdod o fynd i'r afael â'i heriau ariannol wedi bod yn gadarn ac wedi'i reoli'n dda hyd yma, erys problemau o ystyried y lleihad tebygol mewn arian canolog mewn termau real hyd at 2016-17 a thu hwnt. Mae'r Awdurdod yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd pellach, yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u nodi. Caiff peth o'r gwaith hwn ei wneud drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol a sefydlwyd yn ddiweddar a fydd yn ystyried y potensial am arbedion effeithlonrwydd a chydweithredu ar draws y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn ogystal â chyda'r cyhoedd yn fwy cyffredinol a'r sectorau gwirfoddol.

40 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei barn ar gyfrifon yr Awdurdod yn ddiweddar ac yn seiliedig ar hyn, mae'r Archwilydd Penodedig o'r farn bod y datganiadau ariannol yn foddhaol. Rhoddwyd barn ddiamod ar y cyfrifon ar 27 Medi 2012 a grynhowyd yn ei Llythyr Archwilio Blynyddol - mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Gwneir cynnydd da i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol

41 Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu cynigion ar gyfer gwella yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2012.

42 Yn ystod Hydref 2012, adolygodd y Tîm Asesu Cymheiriaid (PAT) y dystiolaeth a gyflwynwyd yn hunanasesiad yr Awdurdod er mwyn asesu'r 'cyfeiriad teithio' wrth weithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn flaenorol. Gwnaeth PAT waith dilynol ar y meysydd i'w datblygu mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch,

Hyfforddiant a Datblygiad, Diogelwch Cymunedol a Lleihau'r Risg i'r Gymuned, a Thrin ac Ymateb i Alwadau. Yn gyffredinol, nododd PAT gynnydd ym mhob un o'r meysydd gyda rhai gwelliannau eraill wedi'u cynllunio ac roedd yn cytuno â'r cynnydd a nodwyd yn hunanasesiadau'r Awdurdod.

## Er bod rhai gwendidau o ran y dull gweithredu, mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd

43 Gwnaethom adolygu dull yr Awdurdod o ymgysylltu â'r cyhoedd a daethom i'r casgliad y gall yr Awdurdod ddangos ei fod yn ymgysylltu'n effeithiol ar lefel weithredol a'i fod yn dangos ymrwymiad cryf tuag at ymgysylltu fwy â'r cyhoedd. Mae angen iddo nawr ddatblygu dull strategol, mwy cydgysylltiedig o weithredu er mwyn egluro'r disgwyliadau a'r adnoddau sydd eu hangen i ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol a gwerthuso hynny.

## Mae'r trefniadau Llywodraethu wedi cael eu hadolygu'n effeithiol fel rhan o broses Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod

44 Gwnaethom ystyried dull yr Awdurdod o Lywodraethu. Gwerthuswyd effeithiolrwydd adolygiad yr Awdurdod o Lywodraethu, a daethpwyd i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi ystyried ei drefniadau Llywodraethu ei hun mewn ffordd gynhwysfawr a thrylwyr. Roedd yr adolygiad o Lywodraethu drwy gwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn drylwyr ac yn gadarn ac roedd yn ddigon eang. Mae'r Awdurdod wedi gwneud defnydd o'i God Llywodraethu Corfforaethol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag egwyddorion Llywodraethu cadarn. Mae'r Awdurdod wedi nodi meysydd y mae angen eu gwella yn ei drefniadau Llywodraethu ac wedi gwneud cynlluniau i fynd i'r afael â hwy.

45 Mae pedwar maes allweddol lle y dylid rhoi mwy o bwyslais ar adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn:

- sicrhau bod staff yn cael eu cynnwys yn fwy ar draws yr Awdurdod;
- bod mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned;
- sicrhau y gwneir cymhariaeth ddigonol o berfformiad ag awdurdodau gwella eraill;
- y caiff y trefniadau Llywodraethu eu hystyried yn fwy mewn perthynas â phartneriaethau a gwaith comisiynu.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Yr Awdurdod

Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol. Mae tri darn pwysig o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag awdurdodau tân:

## Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân wneud darpariaeth ar gyfer diffodd tanau, sydd hefyd yn golygu diogelu bywydau ac eiddo mewn achosion o dân yn ogystal â diffodd tanau. Mae hefyd yn darparu ar gyfer ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

## Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth ar ddiogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau feddu ar dystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys i bob safle annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhannau cyffredin blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Mae'n rhoi cyfrifoldeb i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân a sicrhau y caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Person Cyfrifol[2] gynnal asesiad risg tân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith er mwyn sicrhau'r risg leiaf posibl i fywydau o ganlyniad i dân; a sicrhau bod yr asesiad yn gyfredol. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan Awdurdodau Tân ac Achub y disgwylir iddynt ddatblygu cyfundrefnau arolygu priodol yn seiliedig ar risg.

## Deddf Argyfyngau Sifil 2004

Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all ateb heriau'r unfed ganrif ar hugain. Rhennir y Ddeddf yn ddwy ran; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y Llywodraeth os bydd argyfwng difrifol. O dan y Ddeddf caiff gwasanaethau tân ac achub eu diffinio yn Ymatebwyr Categori 1 ac fel y cyfryw mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;

2 Mae dogfennau Cyfraith a Chanllawiau Diogelwch Tân yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fusnesau yn datgan bod y gyfraith yn gymwys os ydych: yn gyfrifol am safle busnes, yn gyflogwr neu'n unigolyn hunangyflogedig sydd â safle busnes, yn gyfrifol am ran o anheddiad sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion busnes, yn elusen neu'n sefydliad gwirfoddol, yn gontractwr â rhywfaint o reolaeth dros unrhyw safle, yn darparu llety i westeion sy'n talu.

- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am faterion amddiffyn sifil a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd os bydd argyfwng;
- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydgysylltu;
- cydweithio ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella prosesau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol sef:

- Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i helpu yn y rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a 2 yn llunio Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio ar lefel leol.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol yn seiliedig ar ragolygon poblogaeth ym mhob ardal. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru (caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu gan nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob ardal).

Mae'r Awdurdod yn gwario tua £31 miliwn bob blwyddyn (2011-12). Yn yr un flwyddyn, gwariodd yr Awdurdod £4.49 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Mae hyn yn cyfateb i tua £45 fesul preswylydd.

Cadeirydd presennol yr Awdurdod Tân ac Achub yw'r Cynghorydd Aled Morris Jones.

Cynhelir cyfarfodydd o'r Awdurdod llawn bedair gwaith bob blwyddyn fel arfer - ym mis Mawrth, Mehefin, Hydref a Rhagfyr - i ystyried pynciau megis cynlluniau gwasanaeth, materion busnes arferol, cyllidebau a gwariant, ac i wneud penderfyniadau polisi neu gymeradwyo penderfyniadau o'r fath fel y bo'n briodol. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar ei wefan.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan Simon Smith, y Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr gyda chymorth tîm y prif swyddogion, yr uwch dîm rheoli a chynghorwyr arbenigol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan yr Awdurdod yn www.northwales-fire.gov.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JJ.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Simon Smith
Prif Swyddog Tân
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Llanelwy, Sir Ddinbych
LL17 OJJ

Annwyl Simon

**Llythyr Archwilio Blynyddol**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2012, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 24 Medi 2012.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd hyd yma fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2012.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn unol â'r swm cytûn a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Virginia Stevens
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
Copi at Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn ymwneud â hi (bwriad y polisi yw y bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cyhoeddi rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth).

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 a 2012-13 ar wefan yr Awdurdod yn www.northwales-fire.gov.uk. Yr amcanion yw:

| Amcanion Gwella 2011-12 | Amcanion Gwella 2012-13 |
| --- | --- |
| **Amcan Gwella 1**<br>Helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | **Amcan Gwella 1**<br>Helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi |
| 1 Gweithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol/ Lleihau Risg sy'n cynnwys:<br>• rhoi cyngor ar ddiogelwch cymunedol;<br>• cynnal gwiriadau diogelwch tân yn y cartref wedi'u targedu a'u teilwra;<br>• rhoi cyfarpar am ddim yn unol â'r angen a aseswyd. | 1 Gweithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol/ Lleihau Risg sy'n cynnwys:<br>• rhoi cyngor ar ddiogelwch cymunedol;<br>• cynnal gwiriadau diogelwch tân yn y cartref wedi'u targedu a'u teilwra;<br>• rhoi cyfarpar am ddim yn unol â'r angen a aseswyd. |
| 2 Trefnu bod y strategaeth Diogelwch Cymunedol yn cael ei hasesu gan gymheiriaid. | 2 Trefnu bod y strategaeth Diogelwch Cymunedol yn cael ei hasesu gan gymheiriaid. |
| 3 Parhau i fonitro nifer yr achosion o danau mewn anheddau. | 3 Parhau i fonitro nifer yr achosion o danau mewn anheddau. |
| 4 Cynnwys sefydliadau partner wrth ddysgu gwersi o danau mewn anheddau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn digwydd eto. | 4 Cynnwys sefydliadau partner wrth ddysgu gwersi o danau mewn anheddau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn digwydd eto. |
| 5 Defnyddio gwybodaeth i ragweld tanau mewn anheddau a'u hatal. | 5 Defnyddio gwybodaeth i ragweld tanau mewn anheddau a'u hatal. |
| 6 Datblygu safon ymateb leol i ategu ymateb cyflym a chywir i danau mewn anheddau. | 6 Datblygu safon ymateb leol i ategu ymateb cyflym a chywir i danau mewn anheddau. |

| Amcanion Gwella 2011-12 |
| --- |
| 7 Sicrhau bod mwy o orsafoedd tân yn gweithredu system dyletswydd yn ôl y galw (RDS) drwy reoli prosesau recriwtio'n fwy effeithlon. |
| **Amcan Gwella 2**<br>Helpu i leihau'r risg o danau'n dechrau yn ddamweiniol mewn eiddo annomestig, fel y gall gweithgarwch arferol barhau ac nad yw bywydau pobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno'n cael eu rhoimewn perygl |
| 1 Parhau i ddatblygu rhaglen o arolygiadau a threfniadau diogelwch tân wedi'i thargedu mewn eiddo annomestig gan ddefnyddio data a gwybodaeth leol a ddelir ar y system Rheoli Cofnodion. |
| 2 Ymateb cyflym a chywir i danau ar safleoedd annomestig gan griwiau tân sydd â gwybodaeth ar derfynellau data cludadwy sydd wedi'u cysylltu â chofnodion peryglon canolog a gwybodaeth arall. |
| **Amcan Gwella 3**<br>Helpu i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn danau, megis llifogydd, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a digwyddiadau cemegol |
| 1 Parhau â gwaith rhyngasiantaethol (e.e. gydag Asiantaeth yr Amgylchedd) a chwarae rhan weithredol yn y Fforwm Cydnerthu Lleol. |
| 2 Parhau i gymryd rhan mewn cynlluniau a gynlluniwyd i gynyddu diogelwch ar y ffyrdd, megis Pass Plus Cymru, y Cynllun Addysg Moduro a Sioeau Teithiol Effeithiau. |
| 3 Datblygu dull o broffilio gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru i ategu a mireinio'r strategaeth ar gyfer lliniaru eu heffeithiau. |
| 4 Datblygu dangosyddion perfformiad lleol a gwneud mesuriadau sylfaenol yn eu herbyn er mwyn cefnogi gwelliant yn y maes hwn. |

| Amcanion Gwella 2012-13 |
| --- |
| 7 Sicrhau bod mwy o orsafoedd tân yn gweithredu system dyletswydd yn ôl y galw (RDS) drwy reoli prosesau recriwtio'n fwy effeithlon. |
| **Amcan Gwella 2**<br>Canfod ffyrdd o leihau costau cyffredinol rhedeg y gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu o fewn cyllideb flynyddol o £32 miliwn tan 2013-14 |

| Amcanion Gwella 2011-12 |
|---|
| 5 Cynnydd parhaus yn nifer y cofnodion cywir o ddeunyddiau peryglus a ddelir ar safleoedd. |
| **Amcan Gwella 4**<br>Helpu i fynd i'r afael â phroblemau o ran cynnau tanau bwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd a threftadaeth yr ardal yn cael eu rhoi mewn perygl |
| 1 Cydweithredu â Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau cyhoeddus a gwirfoddol eraill i atal tanau bwriadol ac achosion o fandaliaeth drwy dân. |
| 2 Gweithio'n agos gyda grwpiau ac unigolion penodol (e.e. drwy gynlluniau Phoenix a FACE) i ddarbwyllo pobl rhag cynnau tanau bwriadol. |
| **Amcan Gwella 5**<br>Canolbwyntio ar wella datblygiad cynaliadwy'r Awdurdod trwy gael y cydbwysedd iawn rhwng effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub |
| 1 Cyflwyno Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy. |
| **Amcan Gwella 6**<br>Dod yn well am adnabod ac ymgysylltu â phobl a allai eu cael eu hunain dan anfantais gymdeithasol a/neu economaidd, fel ein bod yn gallu gwella eu synnwyr o les, a lleihau'r risg i'w diogelwch personol |
| 1 Dwyn ynghyd amrywiaeth o wybodaeth yn seiliedig ar y boblogaeth o ffynonellau dibynadwy er mwyn helpu i dargedu cyngor ar ddiogelwch yn effeithlon ac yn effeithiol. |
| 2 Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n helpu i ddiogelu pobl rhag cael eu rhoi o dan anfantais annheg oherwydd eu hoedran, eu hanabledd, eu rhyw, eu priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd, eu hil, eu crefydd neu gredo, neu eu cyfeiriadedd rhywiol. |

| Amcanion Gwella 2011-12 |
| --- |
| **Amcan Gwella 7**<br>Sicrhau bod trefniadau cynllunio a rheoli parhad busnes y Gwasanaeth mor gynhwysfawr a sicr ag y gallant fod |
| 1 Ailarfarnu adnoddau a chyfrifoldebau o ran Cynllunio Parhad Busnes er mwyn rhoi pwyslais o’r newydd ar fwrw ymlaen â chynlluniau sydd eisoes yn bodoli a datblygu rhai newydd yn gyson. |
| 2 Rhoi’r un pwys ar reoli parhad busnes corfforaethol a busnes gweithredol er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw faes ei hepgor a bod cynlluniau adfer yn gadarn. |
| **Amcan Gwella 8**<br>Newid agweddau ar strwythur y sefydliad a ffyrdd o weithredu |
| 1 Gweithredu’r adolygiad o swyddogion. |
| 2 Cyflwyno ffyrdd newydd o gyfawni’r swyddogaethdiogelwch tân deddfwriaethol. |
| 3 Ymchwilio i ddichonolrwydd defnyddio cronfa wrth gefn o staff WDS mewn perthynas â gorsafoedd RDS. |
| 4 Adolygu’r swyddogaeth staff cymorth. |
| 5 Datblygu protocol ar gyfer Cynllunio a Gwerthuso Swyddi. |
| **Amcan Gwella 9**<br>Adolygu a gwella prosesau busnes mewnol |
| 1 Adolygu effeithlonrwydd ystod o systemau busnes, a chysylltu hynny ag asesiad cadarn achos wrth achos o swyddi er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyson â gofynion y gwasanaeth. |

| Amcanion Gwella 2011-12 |
| --- |
| 2 Ailgynllunio'r swyddogaeth cymorth a datblygu gweithredol. |
| 3 Ailgynllunio'r swyddogaeth hyfforddi, datblygu a dysgu. |
| **Amcan Gwella 10**<br>Cynllunio a pharatoi ar gyfer y gostyngiad yng nghyllideb 2012-13 |
| 1 Cytuno ar gynllun i leihau costau staff tua £1,000,000 (e.e. hunanamserlennu/cau gorsafoedd/symud pympiau/opsiwn arall). |

## Hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn ystod 2011-12 ar wefan yr Awdurdod www.northwales-fire.gov.uk (Asesiad o Berfformiad 2011-12).

# Atodiad 5
# Cynigion ar gyfer gwella 2012-13

| Cynigion ar gyfer gwella 2012-13 | |
|---|---|
| C1 | Parhau i ddatblygu prosesau corfforaethol er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd, yn arbennig:<br>• datblygu dull arfaethedig, cydgysylltiedig a mwy strategol o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn lleihau nifer yr achosion o ddyblygu gwaith a sicrhau'r effaith a'r canlyniadau mwyaf;<br>• nodi, diffinio a blaenoriaethu pa fath o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n hanfodol i'r Awdurdod, ei bartneriaid a'r cyhoedd a wasanaethir ganddo;<br>• nodi'r adnoddau sydd eu hangen a manteisio ar orsafoedd tân lleol ac allgymorth i'w hannog i ymgysylltu â'u cymunedau lleol;<br>• datblygu prosesau a strwythurau i helpu i baratoi ac ymdrin â sefyllfaoedd dadleuol a phenderfyniadau anodd posibl - er mwyn asesu lefel y risg a nodi camau lliniarol. |
| C2 | Datblygu ffyrdd o ddefnyddio a gwerthuso canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach, a hysbysu'r cyhoedd am sut mae ei fewnbwn wedi dylanwadu ar yr hyn a wna'r Awdurdod. |
| C3 | Bydd defnyddio mwy o ddata cymharol yn helpu'r Awdurdod i esbonio ei gyflawniadau a heriau yn y dyfodol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk